CDLl2

# Ceredigion

## Cynllun Datblygu Lleol Newydd

## 2018 - 2033

## Adroddiad Asesiad Cyflym o Effaith ar Iechyd y Strategaeth a Ffefrir 2019

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

**Os hoffech chi gael y ddogfen hon mewn fformat arall, fel print bras neu gefndir lliw, cysylltwch â'r tîm Polisi Cynllunio drwy e-bost ldp@ceredigion.gov.uk neu dros y ffôn 01545 572123**

# Cynnwys

1. Cyflwyniad 1

2. Asesiad o Effaith ar Iechyd y Strategaeth a Ffefrir 4

3. Cwestiynau ac Esboniadau. 6

4. Sesiwn 1. 6

5. Sesiwn 2. 8

6. Crynodeb o Benderfynyddion Iechyd a Lles y Strategaeth a Ffefrir gan Geredigion ar gyfer y CDLl newydd: 8

7. Argymhellion. 14

8. Casgliadau'r Gweithdy. 15

Atodiad 1: 17

Atodiad 2: 19

Atodiad 3: 20

Atodiad 4: 23

Atodiad 5: 24

Atodiad 6. 25

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Cynllun Datblygu Lleol.

1.1.1 Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004) yn gosod gofyniad ar Awdurdodau Lleol i lunio Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ar gyfer eu hardal. Mae'r CDLl yn gosod polisi a chynigion penodol o ran defnydd tir a datblygu.

1.1.2 Mabwysiadwyd CDLl Ceredigion ar 25ain Ebrill 2013 a chafodd ei fonitro bob blwyddyn drwy gyfrwng Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) (CSC, 2018). Yn dilyn y trydydd AMB rhoddwyd adolygiad llawn ar waith, ac o ganlyniad i hwnnw, argymhellwyd y dylid dechrau llunio CDLl newydd, i fod mewn grym hyd 2033 (Cyngor Sir Ceredigion).

1.1.3 Mae sawl cam statudol gwahanol i'r broses o lunio'r cynllun, sydd i'w weld yng Nghytundeb Cyflenwi'r Cyngor (Cyngor Sir Ceredigion). Dogfen allweddol yn y broses o greu CDLl newydd i ddisodli'r un blaenorol yw'r Strategaeth a Ffefrir (neu'r Cynllun Cyn Adneuo). Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn amlinellu nodau, amcanion, polisïau allweddol, targedau monitro a dangosyddion, lleoliadau anghenion datblygu cynaliadwy, a dehongliad gofodol o'r strategaeth.

## 1.2 Iechyd a Chynllunio o fewn Deddfwriaeth a Pholisi

1.2.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Cynulliad Cymru, 2015) yn nodi ymrwymiad Cymru i sicrhau lles cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd, drwy wneud hi'n ofynnol bod cyrff cyhoeddus yn ymdrechu i gyrraedd nodau llesiant (gweler Tabl 1). Amcan y nodau, ymhlith pethau eraill, yw sicrhau Cymru iachach, yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy, gan fodloni anghenion y presennol heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni'u hanghenion nhw'u hunain. Mae'r ddeddf yn gorchymyn bod yr amcanion hyn yn cael eu cyflawni mewn ffordd gydweithredol, integredig ac ataliol, gan roi ystyriaeth i ymglymiad hirdymor. Mae'r ddeddf yn arwydd o ymroddiad a chyfraniad Cymru tuag at iechyd a

llesiant positif, fel y'u hamlinellir yn Nod Datblygu Cynaliadwy 3 (Y Cenhedloedd Unedig, 2015 )

**Tabl 1: Nodau llesiant a gyhoeddwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. (Ffynhonnell: Llywodraeth y DU, 2015)**

| | |
|---|---|
| Cymru lewyrchus | Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas. |
| Cymru gydnerth | Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol, ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft, y newid yn yr hinsawdd) |
| Cymru iachach | Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol |
| Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol economaidd) |
| Cymru o gymunedau cydlynus | Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. |
| Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn | Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, a chwaraeon a hamdden |

| | |
|---|---|
| ffynnu | |
| Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang. |

1.2.2 Pwysleisir pwysigrwydd sicrhau iechyd da drwy gyfrwng cynllunio drwy ailadrodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 o fewn Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (Llywodraeth Cymru, 2015) a Pholisi Cynllunio Cymru Argraffiad 10 (Llywodraeth Cymru, 2018) sy'n gosod y gofynion statudol a'r fframwaith cyffredinol ar gyfer Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLl) yng Nghymru. Mae Polisi Cynllunio Cymru'n cynnig y dylid sicrhau Cymru iachach drwy hyrwyddo teithio llesol, sy'n benderfynydd allweddol o ran iechyd (gweler Humphreys *et al.,* 2013), gan roi ystyriaeth ar yr un pryd i effeithiau amgylcheddol all gael effaith andwyol ar iechyd. Gwneir darpariaethau ar gyfer yr amcanion uchod yn Neddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 (Llywodraeth Cymru, 2013 ) a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Llywodraeth Cymru, 2013).

1.2.3 Mae Polisi Cynllunio Cymru'n amlygu pwysigrwydd Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd wrth baratoi cynlluniau. Mae Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, fel arf, yn cydymffurfio â'r dulliau gwaith a argymhellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r ffocws hirdymor yn cynnwys y cysyniad o ddatblygu cynaliadwy, ac mae canolbwyntio ar ddylanwadu ar ddifrifoldeb yr effeithiau'n cydymffurfio â'r amcanion a osodir ym Mholisi Cynllunio Cymru (tud. 31) a'r nodau llesiant. Yn ogystal, mae Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn annog amgylchedd cydweithredol, gan gadw felly at y rheoliadau a osodir yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Nod Datblygu Cynaliadwy 11.3, sef sicrhau cynhwysedd wrth gynllunio aneddiadau (Y Cenhedloedd Unedig, 2015). Mae'r ddeddfwriaeth a'r polisi uchod, ar y cyd ag Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd, yn nodi dull o sicrhau Nod Datblygu Cynaliadwy 3.4, sef lleihau marwolaethau cynnar o glefydau anhrosglwyddadwy drwy ataliad, a

hyrwyddo iechyd a lles meddyliol (Y Cenhedloedd Unedig, 2015) yng Nghymru.

1.2.4 Mae Adran 109 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Llywodraeth Cymru, 2017) yn gosod gofyniad bod Gweinidogion Cymru'n llunio rheoliadau ar sut y dylai cyrff cyhoeddus gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd, yn ogystal â gwneud y broses yn un orfodol.

# 2. Asesiad o Effaith ar Iechyd y Strategaeth a Ffefrir

2.1.1 Penderfynwyd Cynnal Asesiad Cyflym o Effaith ar Iechyd y Strategaeth a Ffefrir ar gyfer CDLl newydd Cyngor Sir Ceredigion. Ystyriwyd mai dyna fyddai fwyaf addas am fod y broses eisoes wedi bod yn destun gwerthusiad cynhwysfawr iawn o'r opsiynau ar gyfer y CDLl a fabwysiadwyd, a phenderfynwyd mai dim ond chwe pholisi Strategol, y Weledigaeth ac un amcan CDLl oedd angen eu newid ar gyfer y Cynllun newydd, gyda gweddill y polisïau'n cael eu hadolygu a'u diwygio fel bo angen, a byddant yn destun craffu yn y Cynllun Adneuo. Dewiswyd y cam Strategaeth a Ffefrir am fod y strategaeth a ffefrir yn darparu sylfaen cadarn ar gyfer asesu, am ei bod yn amlinellu'n glir y nodau cychwynnol ac agenda'r CDLl, gan ganiatáu digon o amser ar yr un pryd i ganlyniadau'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd i ffurfio rhan o'r sylfaen tystiolaeth ar gyfer y CDLl terfynol o ran iechyd a lles. Adroddir ar fethodoleg a chanlyniadau'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn y penodau dilynol.

2.1.2 Roedd yr Asesiad Cyflym o'r Effaith ar Iechyd ar ffurf gweithdy cyfranogol a gynhaliwyd dros nifer o oriau, gan ddilyn y fethodoleg systematig 'Gwella Iechyd a Lleihau Anghydraddoldeb: Arweiniad Ymarferol ar Asesu'r Effaith ar Iechyd' (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004) ac 'Asesu'r Effaith ar Iechyd - Canllaw Ymarferol.'(WHIASU, 2012).

2.1.3 Ystyriwyd y Strategaeth a Ffefrir drwy ddefnyddio penderfynyddion ehangach iechyd fel fframwaith, gan asesu sut y gallai iechyd a lles y boblogaeth, ac yn arbennig, grwpiau agored i newid o fewn y boblogaeth

honno, gael eu heffeithio ganddi. Gwahoddwyd amryw o randdeiliaid gwahanol i'r gweithdy, gan gynnwys cynrychiolwyr o wahanol adrannau o fewn yr Awdurdod Lleol (Cynllunio, Gwasanaethau Oedolion, Addysg, Trafnidiaeth, Iechyd a Lles), yn ogystal ag ymgyngoreion ehangach, gan gynnwys Addysg Uwch, y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Sefydliadau Gwirfoddol.

2.1.4 Cynhaliwyd y gweithdy ar 14eg Mai 2019 yn swyddfeydd y Cyngor yng Nghanolfan Rheidol, Aberystwyth.

## 2.2 Methodoleg y Gweithdy.

2.2.1 Pwrpas y gweithdy oedd:

1) Nodi grwpiau agored i niwed o fewn poblogaeth Ceredigion.
2) Nodi unrhyw effeithiau iechyd, positif a negyddol, all ddigwydd o ganlyniad i'r wybodaeth a amlinellir yn y Strategaeth a Ffefrir, ynghyd â'u dosbarthiad.
3) Nodi gwaith y gellid ei wneud i leihau'r effeithiau negyddol a sicrhau'r mwyaf posibl o effeithiau positif.

2.2.2 Ar ddechrau'r gweithdy, croesawodd Cath Ranson (Rheolwr Polisi Cynllunio Cyngor Sir Ceredigion) y rhanddeiliaid a rhoddodd amlinelliad byr o Gyflwyniad i'r Broses Asesu Effaith ar Iechyd, a'r Strategaeth a Ffefrir ar gyfer y CDLl newydd, gan amlinellu amcanion a threfn y gweithdy.

2.2.3 Yna cafodd y rhai oedd yn bresennol gyfle i gael eglurhad ar rai agweddau o'r Strategaeth a Ffefrir ar gyfer y CDLl, methodoleg yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd a'r gweithdy ei hun. Darperir agenda llawn y gweithdy yn Atodiad 4. Ceir copi o'r cwestiynau a roddwyd i'r mynychwyr eu hystyried yn ystod y gweithdy yn Atodiad 5.

2.2.4 Dechreuodd sesiwn gyntaf y gweithdy gyda thrafodaeth bwrdd crwn rhwng y mynychwyr, i nodi grwpiau agored i niwed o fewn poblogaeth Ceredigion. Derbyniodd y mynychwyr broffil cymunedol a rhestr wirio penderfynyddion Iechyd a Lles, ynghyd â rhestr ddangosol o boblogaethau agored i niwed o'r

'Canllaw Ymarferol i Asesiad o'r Effaith ar Iechyd" (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004) . Darperir y dogfennau hyn yn Atodiadau 1, 2 a 3.

2.2.5 Roedd yr ail sesiwn yn ystyried yr effeithiau ar iechyd, rhai positif a negyddol, ynghyd â dosbarthiad tebygol unrhyw effeithiau o fewn Ceredigion, all ddigwydd o ganlyniad i'r wybodaeth a amlinellir yn y fersiwn ddrafft o'r Strategaeth a Ffefrir. Darperir copi o'r fersiwn ddrafft gan Gyngor Sir Ceredigion.

2.2.6 Dechreuodd y sesiwn olaf drwy grynhoi'r grwpiau agored i niwed a nodwyd o fewn Ceredigion, a'r effeithiau ar iechyd all ddod yn sgil rhoi'r Strategaeth a Ffefrir ar waith. Yna cafwyd trafodaeth i nodi gwaith all fod angen ei wneud ar y CDLl newydd i sicrhau'r mwyaf posibl o effeithiau positif a lleihau unrhyw effeithiau negyddol o ganlyniad i roi'r chwe Pholisi Strategol ar waith, a'r newid i Weledigaeth ac Amcan 4 y CDLl. Daeth y gweithdy i ben gyda thrafodaeth grŵp o'r canfyddiadau.

# 3. Cwestiynau ac Esboniadau.

3.1.1 Cafwyd cwestiwn ynghylch p'un ai oedd Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd wedi'u cynnal ar gyfer CDLl newydd cynghorau cyfagos. Dywedwyd bod y broses o lunio CDLl o fewn cynghorau cyfagos ar y blaen i Geredigion, ac felly nid oedd y gofynion gan Lywodraeth Cymru ar Awdurdodau Lleol i gynhyrchu Asesiad o'r Effaith ar Iechyd wedi dod i rym.

# 4. Sesiwn 1.

4.1.1 Nod y sesiwn hon oedd nodi grwpiau poblogaeth agored i niwed yng Ngheredigion gan ddefnyddio'r proffil Cymunedol a'r rhestr wirio penderfynyddion iechyd, yn ogystal â'r rhestr o grwpiau poblogaeth agored i niwed a/neu dan anfantais. Mae iechyd grwpiau agored i niwed yn tueddu i gael ei effeithio'n fwy o lawer na gweddill y boblogaeth drwy lwybrau iechyd negyddol (Popay, *et al,* 1998).

Nodwyd grwpiau gan y rhai a fynychodd y gweithdy, a'u crynhoi dan y categorïau canlynol, heb fod yn unrhyw drefn arbennig.

**Grwpiau cysylltiedig ag Oedran**

- Pobl Hŷn
- Cenhedlaeth y Cynnydd (‘baby boomers’)
- Pobl ifanc sydd ddim yn gyrru
- Teuluoedd ifanc
- Grŵp oedran 25-64
- Plant oed ysgol

**Grwpiau cysylltiedig ag Incwm**

- Incwm is
- Trigolion cefn gwlad gydag incwm isel
- Teuluoedd ffermio
- Rhai sy’n gweithio o gartref
- Rhai sy’n gadael ysgol, sgiliau academaidd isel
- Rhai di-waith

**Grwpiau sy’n dioddef gwahaniaethu neu anfantais gymdeithasol arall**

- Pobl ag anableddau
- Problemau iechyd meddwl ac anableddau ‘anweledig’ eraill
- Sipsiwn a Theithwyr
- LHDT wedi’i ymestyn i gynnwys Cwestiynu a + i gynnwys pob ffurf ar rywioldeb
- Grwpiau lleiafrifoedd ethnig
- Grwpiau crefyddol

**Ystyriaethau Daearyddol**

- Cymunedau arfordirol
- Ardaloedd ynysig, problemau trafnidiaeth
- Y sir yn un ynysig yn ddaearyddol
- Y seilwaith trafnidiaeth
- Mynediad i wasanaethau a chyfleusterau
- Yr angen i yrru cerbyd
- Prinder trafnidiaeth gyhoeddus.

4.1.2 Yna cadwyd y grwpiau hyn o bobl arbennig o agored i niwed neu dan anfantais mewn cof ar gyfer y sesiwn nesaf, pan ystyriwyd effeithiau'r Strategaeth a Ffefrir arfaethedig.

# 5. Sesiwn 2.

5.1.1 Nod yr ail sesiwn oedd trafod y Strategaeth a Ffefrir ar gyfer y CDLl newydd, a'r chwe Pholisi Strategol, y Weledigaeth ddiwygiedig ac Amcan 4 y CDLl, er mwyn ystyried eu heffaith, positif a negyddol, ar iechyd a lles poblogaeth Ceredigion. Crynhowyd y canlyniadau yn ôl wahanol themâu.

# 6. Crynodeb o Benderfynyddion Iechyd a Lles y Strategaeth a Ffefrir gan Geredigion ar gyfer y CDLl newydd:

**Ffordd o Fyw**

**Yr Effeithiau Positif Posib a Nodwyd**

- Mae'r weledigaeth yn nodi'r bwriad i Geredigion fod yn sir o gymunedau bywiog ac ymgysylltiol y mae pobl yn dewis byw ynddi, sydd wedi ymrwymo i sicrhau cydnerthedd ei hiechyd a'i lles.
- Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn anelu at wella cynaladwyedd y sir, drwy gryfhau'r rhwydwaith o drefi ac aneddiadau gwledig, a fydd yn darparu mwy o lwybrau beicio a cherdded a llwybrau teithio llesol i annog dulliau mwy cynaliadwy o deithio, cerdded a beicio.
- Mae polisïau strategol S01-S04 yn delio â Datblygiad Cynaliadwy Ceredigion a chlustnodi safleoedd o fewn mathau gwahanol o aneddiadau. Bydd unrhyw dwf yn canolbwyntio ar sicrhau cymunedau cryfach, mwy cynaliadwy, a bydd sicrhau bod y twf pennaf o fewn Canolfannau Gwasanaethau Trefol, Canolfannau Gwasanaethau Gwledig, ac Aneddiadau Mawr Cysylltiedig yn caniatáu gwell mynediad i gyfleusterau a gwasanaethau, a mwy o lwybrau cerdded a beicio, gan annog ffordd o fyw iachach.
- Mae Polisi Strategol S05, Tai Fforddiadwy, yn darparu tai ar gyfer amryw o anghenion, a hynny o fewn Canolfannau Gwasanaethau Trefol, Canolfannau Gwasanaethau Gwledig ac Aneddiadau Mawr Cysylltiedig,

lle mae gwell mynediad i gyfleusterau a gwasanaethau, gyda llwybrau beicio a cherdded yn agos at ddatblygiadau, i annog dulliau mwy cynaliadwy o deithio, a ffordd o fyw iachach.

**Yr Effeithiau Negyddol Posib a Nodwyd**

- Mae angen i ddatblygiadau newydd ystyried yr angen am gyfleusterau storio Beiciau, i annog y defnydd o lwybrau teithio llesol. Mae storio yn aml yn broblem mewn fflatiau neu dai cymunedol, ac mae eu storio yn y cyntedd yn debygol o achosi perygl tân.
- Gall tai fforddiadwy hefyd fod yn rhan o ddatblygiadau sy'n cynnwys unedau sengl mewn lleoliadau mwy anghysbell, a gall hynny gyfyngu ar fynediad y deiliad at opsiynau teithio cynaliadwy, llwybrau beicio a cherdded.
- Bydd trigolion cefn gwlad yn dal i ddibynnu ar eu ceir fel nad ydynt yn ynysig ac heb fynediad at wasanaethau, all arwain at broblemau iechyd, am fod gwasanaethau a datblygiadau wedi'u lleoli yn yr Aneddiadau mawr yn bennaf, polisïau S01-S04 a'r Strategaeth a Ffefrir.
- Nid yw datblygiadau mewn ardaloedd gwledig yn debygol o roi ystyriaeth i lwybrau teithio llesol na hyd yn oed llwybrau cerdded, gan leihau'r buddiannau iechyd cysylltiedig, Polisi S03.

**Dylanwadau Cymdeithasol a Chymunedol.**

**Yr Effeithiau Positif Posib a Nodwyd**

- Mae'r Strategaeth a Ffefrir a Pholisïau S01-S03 yn gosod datblygiadau mwy o faint o fewn Canolfannau Gwasanaethau Trefol a Chanolfannau Gwasanaethau Gwledig yn bennaf, gan gynnwys cymysgedd eang o dai gwahanol i gwrdd ag anghenion amrywiol, sy'n helpu i greu gwell ymdeimlad o gymuned.
- Mae Polisi Aneddiadau Cysylltiedig S04 yn caniatáu datblygu mewn ardaloedd gwledig ac yn cadw gwasanaethau lleol o fewn cymunedau

llai, gan greu cymunedau bywiog ac ymgysylltiol, fel y nodir yng ngweledigaeth y CDLl.

- Mae Polisi S05, Tai Fforddiadwy, yn caniatáu datblygu tai y tu allan i Ganolfannau Gwasanaethau Trefol, Canolfannau Gwasanaethau Gwledig, ac Aneddiadau Cysylltiedig, yn dibynnu ar yr angen lleol, sy'n helpu i gadw pobl yn eu cymunedau.
- Mae Polisi S06, Cynllunio a'r Gymraeg, yn anelu at gefnogi a gwella'r Gymraeg ar draws y sir, ac mae'n helpu i atal pobl rhag teimlo'n ynysig, yn arbennig y genhedlaeth hŷn, all fod yn byw mewn ardal arbennig o ynysig.
- Ystyrir anghenion Sipsiwn a Theithwyr trwy gyfrwng Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr bob pum mlynedd.
- Does dim rhagfarn yn erbyn LHDTC+ ac ystyrir eu hanghenion yn y Weledigaeth o Sir o gymunedau bywiog, dwyieithog ac egnïol.

**Yr Effeithiau Negyddol Posib a Nodwyd**

- Arwahanrwydd cymdeithasol o fewn cymunedau llai, all effeithio ar iechyd corfforol a meddyliol, yn sgil diffyg gwasanaethau, dim darpariaeth ar gyfer Teithio Llesol, a diffyg trafnidiaeth gyhoeddus, am fod y Cynllun yn hyrwyddo datblygiad o fewn Canolfannau Gwasanaethau Trefol, Canolfannau Gwasanaethau Gwledig ac Aneddiadau Cysylltiedig Mawr neu Gynaliadwy, fel ym Mholisïau S01-S04.
- Mi allai'r diffyg cefnogaeth i dwf o fewn yr aneddiadau llai gael effaith andwyol ar siopau a gwasanaethau llai yn yr ardal, ac arwain o bosib at golli'r gwasanaethau hyn yn gyfan gwbl.
- Gall cyfyngu ar y twf mewn ardaloedd gwledig iawn gael effaith bosib ar brisiau Tai, oherwydd mi allai olygu bod prisiau tai yn yr ardal yn cael eu cynyddu'n artiffisial, gan brisio trigolion lleol allan o'r farchnad a'u gorfodi i adael yr ardal, gan chwalu cymunedau.

**Amodau Byw ac Amgylcheddol.**

**Yr Effeithiau Positif Posib a Nodwyd.**

- Cytunir â'r Weledigaeth bod y CDLl yn darparu cymunedau bywiog ac ymgysylltiol, lle mae anghenion tai, economaidd, seilwaith, cymunedol, addysgol, iechyd a lles yn cael eu bodloni. Rhaid i'r holl dai a ddatblygir gael eu hadeiladu'n unol â safonau 'Cartref am Oes', gan sicrhau y gellir eu haddasu i gwrdd ag anghenion gwahanol y preswylwyr, gan ganiatáu i deuluoedd aros yn eu cartrefi am gyfnod hirach. Mae hyn yn arbennig o bwysig i 'Genhedlaeth y Cynnydd' a fydd yn debygol o ddisgwyl perchen eu cartref eu hunain i'w basio ymlaen i'r genhedlaeth nesaf.
- Mae'r Strategaeth yn anelu at wella cynaladwyedd y Sir i'w gwneud hi'n fwy cydnerth yn gymdeithasol, drwy gryfhau cymunedau aneddiadau trefol a gwledig.
- Mae polisïau S01-S03 yn canolbwyntio ar dwf o fewn Canolfannau Gwasanaethau Trefol, Canolfannau Gwasanaethau Gwledig, ac Aneddiadau Mawr Cysylltiedig, ac mae'n darparu datblygiadau mwy o faint sy'n cynnwys mathau amrywiol o dai ar gyfer teuluoedd, cyplau, un preswylydd, a'r henoed a'r anabl, gan osgoi problemau arwahanrwydd.
- Mae Polisi Tai Fforddiadwy S05 yn darparu tai ar draws y Sir i'r rhai sydd ar incwm is, sy'n caniatáu iddyn nhw gael mynediad at wasanaethau a chyfleusterau yn ymyl eu cartref, gan wella hunaniaeth gymunedol a lleihau arwahanrwydd cymdeithasol.

**Yr Effeithiau Negyddol Posib a Nodwyd**

- Wrth ddatblygu mwy o dai o fewn Canolfannau Gwasanaethau Trefol, Canolfannau Gwasanaethau Gwledig ac Aneddiadau Mawr neu Gynaliadwy Cysylltiedig, S01-S04, mae angen ystyried cynnwys darpariaeth o ardaloedd tir glas oherwydd mae prawf bod hynny'n fuddiol o ran iechyd a lles meddyliol.

- Mae yna broblem economaidd a thopograffig ynghlwm â chysylltu'r tair annedd teithio llesol ag aneddiadau mwy anghysbell, i gynyddu'r defnydd o ddulliau cynaliadwy ac iach o deithio rhyngddyn nhw.
- Gallai mwy o draffig o fewn Canolfannau Gwasanaethau Trefol, Canolfannau Gwasanaethau Gwledig ac Aneddiadau Mawr Cysylltiedig (polisïau S01-S04) waethygu'r problemau seilwaith o ganlyniad i fwy o draffig, gan arwain at broblemau iechyd oherwydd ansawdd yr aer lleol.

**Amodau Economaidd**

**Yr Effeithiau Positif Posib a Nodwyd**

- Mae'r Strategaeth a'r Polisïau a Ffefrir, S01-S03, yn canolbwyntio ar ddatblygu tai o fewn aneddiadau mwy o faint, lle mae mwyafrif y cyfleoedd gwaith yn bodoli, gan leihau amserau teithio a chaniatáu defnydd o ddulliau trafnidiaeth iachach a mwy cynaliadwy.
- Mae darparu Tai Fforddiadwy o fewn Canolfannau Gwasanaethau Trefol a Chanolfannau Gwasanaethau Gwledig yn caniatáu i bobl ifanc aros yn y Sir a dod o hyd i waith, gan greu cymunedau mwy cydnerth, egnïol a chydlynus, Polisi S05.
- Mae Polisi S03 ac Amcan 4 y CDLl a'r Weledigaeth, yn darparu ar gyfer cyfleoedd Twristiaeth, yn seiliedig ar ddatblygiadau economaidd o fewn ardaloedd gwledig, a chyfleoedd arallgyfeirio o fewn cymunedau ynysig a ffermydd, gan helpu i ddod â buddiannau economaidd i gymunedau bach gwledig, a buddiannau iechyd drwy wella iechyd a lles meddyliol.

**Yr Effeithiau Negyddol Posib a Nodwyd**

- Mi allai Amcan 4, sy'n anelu at wella twristiaeth fel diwydiant ar gyfer Ceredigion, gael effaith ar seilwaith ac amgylchedd aneddiadau llai. Gallai mewnlifiad o dwristiaid achosi problemau seilwaith oherwydd gall y ffyrdd fod yn anaddas ar gyfer y cynnydd mewn traffig, gall fod yna

broblemau cysylltiedig megis bod y ffyrdd yn fwy peryglus i drigolion eu defnyddio, a gall llygredd aer lleol achosi mwy o broblemau iechyd.

**Hygyrchedd ac Ansawdd Gwasanaethau**

**Yr Effeithiau Positif Posib a Nodwyd**

- Mae'r Strategaeth a Ffefrir, Polisïau S01-S03, yn canolbwyntio ar ddatblygu tai o fewn Canolfannau Gwasanaethau Trefol, Canolfannau Gwasanaethau Gwledig ac Aneddiadau Mawr Cysylltiedig, sy'n caniatáu i drigolion gael gwell mynediad at y gwasanaethau a'r cyfleusterau sydd eu hangen arnynt, gan gynnwys gwasanaethau Iechyd, gwasanaethau Addysg, gwasanaethau TG a'r seilwaith Trafnidiaeth. Mae Polisi S04 yn caniatáu ar gyfer peth datblygiad yn unol â'r polisi cenedlaethol o fewn Aneddiadau Cysylltiedig, sy'n helpu i gadw cymunedau drwy ddarparu gwasanaethau lleol, sydd o fewn cyrraedd y trigolion, gan leihau'r angen i deithio, ac atgyfnerthu'r ymdeimlad o gymuned.

**Yr Effeithiau Negyddol Posib a Nodwyd**

- Gallai aneddiadau bach gwledig gael eu hynysu ymhellach yn sgil gosod cyfyngiadau llym ar ddatblygu, a allai arwain at golli unrhyw wasanaethau a chyfleusterau lleol sydd ar gael, gan ynysu'r trigolion hynny sydd heb fynediad at drafnidiaeth ymhellach, yn arbennig bobl hŷn a rhai sydd ar incwm isel.

**Ffactorau Macro-economaidd, Amgylcheddol a Chynaladwyedd**

**Yr Effeithiau Positif Posib a Nodwyd**

- Mae'r Weledigaeth yn ystyried cynaladwyedd y Sir a gwarchod yr amgylchedd a'r adnoddau naturiol, ac mae'r datganiadau ategol yn sicrhau ei bod hi'n addasu ac yn ymateb yn bositif i heriau'r newid yn yr hinsawdd.

- Mae'r Strategaeth a Ffefrir a'r Polisïau sy'n rhan o'r CDLl newydd yn cadw at Bolisïau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Polisi Cynllunio Cymru 10, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2010 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Mae Polisïau S01-S04 a'r Strategaeth a Ffefrir yn canolbwyntio ar ddatblygu tai o fewn yr aneddiadau mwyaf, gan leihau'r angen i deithio, a thrwy hynny leihau'r allyriadau carbon, a hybu cyfraniad Ceredigion o ran rhyddhau allyriadau nwyon tŷ gwydr a'r newid yn yr hinsawdd.

**Yr Effeithiau Negyddol Posib a Nodwyd**

- Mae Brexit yn cael effaith ar iechyd a lles Ceredigion, oherwydd mae'r ansicrwydd am y fasnach Ewropeaidd wedi arwain at lai o ddatblygu economaidd a chyfleoedd yn yr ardal.
- Bydd problemau sy'n gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar aneddiadau arfordirol, oherwydd wrth i lefel y môr godi bydd mwy o lifogydd arfordirol a llifogydd llanw all effeithio ar aneddiadau presennol, gan orfodi pobl i adleoli.
- Gall gwelliannau o ran Technoleg Gwybodaeth ddigwydd o fewn y Canolfannau Gwasanaethau Gwledig yn unig, gan olygu bod trigolion cefn gwlad dan anfantais am na allant dderbyn y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt i weithio o gartref, gan eu gorfodi i adleoli i rannau eraill o'r sir neu hyd yn oed allan o'r sir.
- Gall y seilwaith ar gyfer dulliau trafnidiaeth amgen fod yn anymarferol y tu allan i Ganolfannau Gwasanaethau Trefol neu Ganolfannau Gwasanaethau Gwledig, er enghraifft pwyntiau gwefru ceir trydan, gan olygu nad yw'r cyfleuster ar gael i drigolion cefn gwlad.

# 7. Argymhellion.

- Integreiddio llwybrau teithio llesol â datblygiadau newydd i annog ffordd o fyw egnïol, a hwyluso mynediad i wasanaethau a chyfleusterau.
- Gwarchod llinellau rheilffyrdd segur ar gyfer y posibilrwydd o'u defnyddio fel llwybrau beicio a llwybrau teithio llesol, i greu llwybrau

uniongyrchol rhwng aneddiadau sy'n gymharol wastad felly'n hwylus i bawb.

- Mae angen ystyried pob ardal yng Ngheredigion fel un hyfyw yn nhermau'r Gymraeg, i sicrhau ein bod yn cwrdd â gweledigaeth y CDLl o gymunedau bywiog, dwyieithog ac ymgysylltiol.
- Mae angen gwarchod cyfleusterau cymunedol er mwyn sicrhau bod gan gymunedau fynediad at gyfleusterau, i leihau effeithiau arwahanrwydd.
- Y posibilrwydd o wasanaethau 'tele-iechyd' yn y dyfodol mewn ardaloedd gwledig, i sicrhau bod gan gymunedau fynediad at ofal iechyd.

# 8. Casgliadau'r Gweithdy.

8.1.1 Mae canlyniadau'r gweithdy Asesu'r Effaith ar Iechyd yn dangos bod y Strategaeth a Ffefrir a'r Polisïau cysylltiedig yn fuddiol ar y cyfan, a'u bod yn cael effaith bositif ar iechyd a lles poblogaeth Ceredigion.

8.1.2 Roedd y rhan fwyaf o'r effeithiau negyddol posib a nodwyd gan y gweithdy Asesu'r Effaith ar Iechyd yn ymwneud â materion amrywiol mewn perthynas ag aneddiadau bach, gwledig, lle na fyddai'r dyraniad cyfyng o ran datblygu tai'n cael unrhyw effaith sylweddol ar eu cynaladwyedd fel cymuned.

8.1.3 O ran yr effeithiau negyddol a amlygwyd, byddid yn mynd i'r afael â'r rhain wrth symud ymlaen i'r Cynllun Adneuo.

8.1.4 Llwyddodd y gweithdy i wneud argymhellion i'r tîm Polisi Cynllunio eu hystyried wrth baratoi'r CDLl Adneuo 2 drafft.

**Cyfeiriadau.**

Popay, J. Williams, G. Thomas, C. & Gatrell, A. (1998), Theorising inequalities in health: the place of lay knowledge, *Sociology of Health & Illness*, 20(5), 619–644, http://www3.interscience.wiley.com/journal/119116624/abstract?CRETRY=1&SRETRY=0

# Atodiad 1:

## Rhestr Wirio Penderfynyddion Iechyd

**1. Ffordd o Fyw**

- Deiet
- Gweithgaredd corfforol
- Alcohol, sigaréts a defnydd o gyffuriau heb bresgripsiwn
- Gweithgaredd rhywiol
- Gweithgaredd arall sy'n cynnwys risg

**2. Dylanwadau Cymdeithasol a Chymunedol**

- Sefydliadau a rolau teuluol
- Pŵer a dylanwad dinasyddion
- Cymorth a rhwydweithiau cymdeithasol
- Cymdogrwydd
- Ymdeimlad o berthyn
- Balchder lleol
- Rhaniadau yn y gymuned
- Arwahanrwydd cymdeithasol
- Pwysau o du cyfoedion
- Hunaniaeth gymunedol
- Ethos diwylliannol ac ysbrydol
- Hiliaeth
- Eithrio cymdeithasol o fath arall

**3. Amodau Byw a'r Amgylchedd**

- Amgylchedd adeiledig
- Dyluniad y gymdogaeth
- Tai
- Amgylchedd dan do
- Sŵn
- Ansawdd yr aer a'r dŵr
- Pa mor ddeniadol yw'r ardal
- Ardaloedd glas
- Diogelwch cymunedol
- Arogl/oglau
- Gwaredu gwastraff
- Peryglon ar y ffyrdd
- Y perygl o anafiadau
- Ansawdd a diogelwch ardaloedd chwarae

**4. Amodau Economaidd**

- Diweithdra
- Incwm
- Gweithgaredd economaidd
- Math o gyflogaeth
- Amodau'r gweithle

**5. Hygyrchedd ac Ansawdd Gwasanaethau**

- Gwasanaethau meddygol
- Gwasanaethau gofal eraill
- Cyngor gyrfaol
- Siopau a gwasanaethau masnachol
- Amwynderau cyhoeddus
- Trafnidiaeth gan gynnwys parcio
- Addysg a hyfforddiant
- Technoleg gwybodaeth

**6. Ffactorau Macro-economaidd, Amgylcheddol a Chynaladwyedd**

- Polisïau'r Llywodraeth
- Cynnyrch Domestig Gros
- Datblygu Economaidd
- Amrywiaeth Biolegol
- Yr Hinsawdd

# Atodiad 2:

## Grwpiau poblogaeth agored i niwed a/neu dan anfantais

### 1. Grwpiau cysylltiedig ag oedran

- Plant a phobl ifanc
- Pobl hŷn

### 2. Grwpiau cysylltiedig ag incwm

- Pobl ar incwm isel
- Rhai sy'n economaidd anweithgar
- Y Di-waith
- Pobl na allant weithio oherwydd afiechyd

### 3. Grwpiau sy'n dioddef gwahaniaethu neu anfantais gymdeithasol arall

- Pobl ag anableddau
- Grwpiau ffoaduriaid
- Ceiswyr lloches
- Sipsiwn a Theithwyr
- Teuluoedd un rhiant
- LHDT+
- Grwpiau lleiafrifoedd ethnig
- Grwpiau crefyddol

## 4. Ystyriaethau daearyddol

- Pobl sy'n byw mewn ardaloedd sydd â dangosyddion economaidd a dangosyddion iechyd gwael
- Pobl sy'n byw mewn ardaloedd anghysbell
- Pobl sy'n methu cael mynediad at wasanaethau a chyfleusterau.

# Atodiad 3:

## Proffil Cymunedol Ceredigion

### Demograffeg Ceredigion

Cyfanswm poblogaeth Ceredigion adeg Cyfrifiad 2011 = 75,922

Poblogaeth 2015 Amcangyfrif Canol Blwyddyn (ACB) = 74,642 (Dynion = 37,475; Merched = 37,167)

### Strwythur y boblogaeth

| Grŵp yn Fras | Cyfrifiad 2011 | % | ACB 2015 | % |
|---|---|---|---|---|
| 0-14 | 10,460 | 13.8 | 10,224 | 13.7 |
| 15-24 | 14,823 | 19.5 | 14,723 | 19.7 |
| 25-44 | 14,897 | 19.6 | 13,163 | 17.6 |
| 45-64 | 20,037 | 26.4 | 19,191 | 25.7 |
| 65-74 | 8,418 | 11.1 | 9,553 | 12.8 |
| 75+ | 7,287 | 9.6 | 7,788 | 10.4 |

Mae'r gyfran uchel o rai 15 i 24 oed yn cyfateb i grwpiau oedran myfyrwyr Addysg Uwch. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf gan HESA (Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch) yn dangos bod oddeutu 7,000 o fyfyrwyr amser llawn ym mhrifysgolion Ceredigion yn 2015/16, sef bron 10% o boblogaeth y sir.

### Grwpiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (Cyfrifiad 2011)

Mae 2,479 (3.3%) o'r boblogaeth yn aelodau o grŵp ethnig nad yw'n wyn.

### Cyflogaeth a'r Economi

Gweithgaredd economaidd (Hydref 2015 – Medi 2016)

| Pobl | Ceredigion (niferoedd 16+) | Ceredigion (%) |
|---|---|---|
| Poblogaeth 16 i 24 oed | 46,300 | 62.1%[1] |

| | | |
|---|---|---|
| Economaidd weithgar | 34,900 | 69% |
| Mewn gwaith | 33,900 | 66.9% |
| Economaidd weithgar: cyflogedig | 23,900 | 49.8% |
| Economaidd weithgar: hunangyflogedig | 9,200 | 16.2% |
| Di-waith | 1,400 | 3.8% |

Ffynhonnell: NOMIS

**Cyfansoddiad Aelwydydd**

Roedd 4,478 o bobl (6% o'r boblogaeth) yn byw mewn sefydliadau cymunedol adeg Cyfrifiad 2011, llawer ohonynt mewn neuaddau preswyl prifysgolion.

**Roedd cyfanswm nifer yr aelwydydd yng Ngheredigion yn 31,562 adeg Cyfrifiad 2011**

**Tai**

Daliadaeth (Cyfrifiad 2011)

## Iechyd

**Salwch cyfyngus hirdymor**

Adroddodd 7,589 (10%) fod eu gweithgareddau o ddydd i ddydd yn gyfyngedig iawn, adroddodd 8,436 (11%) fod eu gweithgareddau o ddydd i ddydd ychydig yn gyfyngedig, ac adroddodd 59,897 (79%) nad oedd eu gweithgareddau o ddydd yn gyfyngedig, yng Nghyfrifiad 2011.

**Iechyd Cyffredinol**

Adroddodd 60,138 (79%) fod eu hiechyd yn dda neu'n dda iawn, adroddodd 10,946 (14%) fod eu hiechyd yn weddol, ac adroddodd 4,811 (7%) fod eu hiechyd yn wael neu'n wael iawn, yng Nghyfrifiad 2011.

**Incwm**

Incwm cyfartalog yr aelwyd - tua £30,293 y flwyddyn (data cyflogau CACI 2016)

**Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) - Incwm**

Aberteifi – Teifi yw'r unig ardal yng Ngheredigion i ymddangos yn y 10% o ardaloedd gwaethaf Cymru o ran incwm.

**Y Gymraeg**

Roedd 34,964 o siaradwyr Cymraeg (47.3% o'r boblogaeth 3 oed a throsodd) adeg Cyfrifiad 2011.

| | | |
|---|---|---|
| Aelwydydd ag un preswylydd | 10,456 | 33% |
| Un teulu: priod, cwpwl o'r un rhyw mewn partneriaeth sifil neu'n cyd-fyw | 12,442 | 39% |
| Un teulu: pensiynwyr | 3,199 | 10% |
| Un teulu: rhiant unigol | 2,503 | 8% |
| Arall | 2,962 | 9% |

| | | |
|---|---|---|
| Perchennog preswyl | 21,323 | 68% o aelwydydd |
| Rhentu preifat | 6,275 | 20% o aelwydydd |
| Rhentu cymdeithasol | 3,196 | 10% o aelwydydd |

# Atodiad 4:

## Agenda Gweithdy Asesu'r Effaith ar Iechyd

### Agenda Gweithdy

**Asesu Effaith ar Iechyd**
**y Strategaeth a Ffefrir gan Geredigion**
**ar gyfer**
**y Cynllun Datblygu Lleol newydd.**

**Lleoliad: Ystafell 02, Canolfan Rheidol, Llanbadarn, Aberystwyth. Ceredigion SY23 3UE.**

**Dyddiad: 14eg Mai 2019**

**Amser: 9:30am - 12:30pm**

Amlinellir agenda / llinell amser arfaethedig ar gyfer y gweithdy isod.

| Amser | Gweithgaredd |
|---|---|
| 9:30am | Cyflwyniad i Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd, y Strategaeth a Ffefrir ar gyfer y CDLl newydd ac amcanion a threfn y gweithdy |
| 9;40am | Cwestiynau ac Esboniadau |
| 9:50am | Cyflwyniad a briff gweithgaredd 1 |
| 10:00am | Gweithgaredd 1 – nodi grwpiau agored i niwed |
| 10;30am | Cyflwyniad a briff gweithgaredd 2 |
| 10;40am | Gweithgaredd 2 – nodi effeithiau posib y Strategaeth a Ffefrir ar iechyd |
| 11:10am | Egwyl –Te/Coffi |
| 11:30am | Crynhoi'r sesiwn flaenorol a chyflwyno gweithgaredd 3 |
| 11:40am | Gweithgaredd 3 - argymhellion ar sut i gynyddu neu leihau'r effeithiau |
| 12:10pm | Trafodaeth grŵp a sylwadau i gloi |
| 12:25pm | Cwblhau'r adborth |

# Atodiad 5:

## Cwestiynau i'w hystyried yn ystod y gweithdy

- Sut fydd y polisi'n effeithio ar iechyd y boblogaeth?
- A ydy'r effeithiau'n debygol o fod yn rhai positif neu negyddol?
- Pa mor debygol yw hi y bydd yr effaith yn digwydd (yn bendant, yn debygol ac ati)?
- Pa gyfran o'r boblogaeth sy'n debygol o gael ei heffeithio?
- Pa mor ddifrifol neu fuddiol fydd yr effaith yn ôl pob tebyg?
- Pryd fydd yr effaith yn digwydd (mewn wythnosau, misoedd ac ati)?
- A ydy'r buddiannau hirdymor yn cyfiawnhau'r risgiau tymor byr?
- A fyddai rhai grwpiau'n cael eu heffeithio'n fwy nag eraill?
- A fydd un gyfran o'r boblogaeth yn elwa ond eraill ddim?

# Atodiad 6.

## Rhestr o'r Rhanddeiliaid a wahoddwyd i'r Gweithdy

| | |
|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Gofal Cymunedol a Hirdymor |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Cyfarwyddwr Cynllunio, Perfformiad a Chomisiynu |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Cyfarwyddwr Sir Ceredigion |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | |
| | Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys |
| Prifysgol Aberystwyth | Is-Ganghellor |
| Coleg Ceredigion | Pennaeth |
| Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant - Campws Llanbedr | |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru | Prif Weithredwr a Llyfrgellydd |
| Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru | Pennaeth Ymateb Awdurdod Sir Ceredigion |
| CAVO | Prif Weithredwr |
| Cyngor Sir Ceredigion | Rheolwr Corfforaethol Partneriaethau a Pherfformiad |
| Cyngor Sir Ceredigion | SAC Gwasanaethau Plant |
| Cyngor Sir Ceredigion | SAC Ysgolion, Gwasanaethau Ysgolion |
| Cyngor Sir Ceredigion | SAC Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol |
| Cyngor Sir Ceredigion | SAC Gwasanaethau Oedolion |
| Cyngor Sir Ceredigion | SAC Dysgu Gydol Oes a Diwylliant |
| Cyngor Sir Ceredigion | SAC Polisi a Pherfformiad |

| | |
|---|---|
| Cyngor Sir Ceredigion | Rheolwr Polisi Cynllunio |
| Heddlu Dyfed Powys | Prif Uwch-arolygydd |